# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams – Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr John Griffiths, Derlwyn R. Hughes, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, Aled M. Jones, H. Eifion Jones, Bob Parry OBE. |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr. Gareth Williams – Pennaeth Gwasanaeth(Addysg)<br>Mr. Aaron Bailey – Pennaeth,Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch,<br>Mrs. Eirianwen Williams - Pennaeth,Ysgol y Graig, Llangefni.<br><br>Ms. Jane Phillipson – Grŵp Hay |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2013.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

*"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu)**
**Cyflog: oddeutu £70,000**

Roedd yr Aelodau yn dymuno cofnodi bod canolwr un o'r ymgeiswyr yn sylwedydd annibynnol yn y cyfarfod. Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol fod yr ymgeisydd wedi cael gwybod cyn y cyfweliad y bydd angen iddo ddarparu canolwr newydd.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y ddau ymgeisydd wedi cael trafodaeth anffurfiol gyda Swyddogion a'r ddau Bennaeth Ysgol cyn y cyfarfod.

Roedd cynrychiolydd o Grŵp Hay wedi gwneud asesiad annibynnol manwl o'r ddau ymgeisydd.

Yn dilyn cyfweld y 2 ymgeisydd **PENDERFYNWYD penodi Mrs Delyth Wyn Molyneux i'r swydd uchod o ddyddiad i'w gytuno arno.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**